Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Porth Tywyn**

**Neuadd Goffa**
**Stryd Parc-y-Minos**
**Porth Tywyn**
**SA16 0BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi ol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021._**

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Porth Tywyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Joanne Williams<br>Marie Gower |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Ionawr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn fodlon eu byd ac yn ddiogel yn y lleoliad.  Maent yn mynegi eu hanghenion yn hyderus. Mae gan y plant gydberthnasau da â'i gilydd a'r staff gofal.  Maent yn mwynhau eu hamgylchedd chwarae a dysgu, ac maent yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n tyfu.

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn ddigonol.  Maent yn darparu strategaethau magwrus a gofalgar er mwyn sicrhau bod y plant yn hapus, gan barchu eu teimladau. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r plant yn gyson dda.  Maent yn cynnig profiadau dysgu amrywiol i'r plant.

Mae'r amgylchedd yn addas, yn ddiogel ac mewn cyflwr da.  Mae'r adnoddau wedi'u trefnu'n effeithiol ac yn ddigon hawdd i'r plant eu cyrraedd. Mae ganddynt amrywiaeth o adnoddau Cymraeg ac mae'r staff gofal yn dathlu cyflawniadau'r plant yn yr amgylchedd dysgu yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn rheoli gwasanaeth trefnus. Maent yn mynd ati'n effeithiol i sicrhau bod y staff yn mynychu sesiynau hyfforddiant a datblygu. Maent yn rheoli prosesau recriwtio yn dda ar y cyfan. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn trefnu'r staff gofal ac yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau'n dda er mwyn ddiwallu anghenion y plant. Mae'r partneriaethau'n dda iawn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi ymlacio ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal. Mae'r plant yn ddigon hyderus i fynd at y staff am gymorth a chysur. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn cael sgyrsiau tawel ac yn canu caneuon cyfarwydd yn hapus. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn dewis ble i eistedd amser cinio ac maent yn dewis adnoddau chwarae yn ystod sesiynau chwarae rhydd yn annibynnol. Mae'r plant yn dangos eu teimladau yn ystod amser cylch drwy roi eu bodiau i fyny i ddangos eu bod yn hapus.

Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn. Maent yn gyfarwydd iawn â'u harferion, gan dacluso a dychwelyd i'r carped ar gyfer amser cylch. Mae'r plant yn deall bod angen iddynt olchi eu dwylo ar adegau priodol. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff gofal ac yn fwy na pharod i eistedd yn agos atynt yn ystod gweithgareddau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda. Mae'r plant yn dangos parch a charedigrwydd tuag at eraill. Er enghraifft, roedd y plant yn rhoi mwythau i gefn plentyn arall gan roi ei degan gysuro iddo i'w gadw'n hapus. Mae'r plant yn dysgu am eu teimladau a'u hymddygiadau. Maent yn canmol cyflawniadau ei gilydd drwy gymeradwyo pan fydd eraill wedi ateb cwestiynau'n gywir yn ystod amser cylch.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae, ac yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a gynigir. Roedd llawer o'r plant yn dewis chwarae â'r toes chwarae, tra bod eraill wedi ymgolli mewn gweithgaredd paentio lle roeddent yn paentio blodyn. Ymunodd y plant yn y sesiynau canu yn llawn cyffro, gan ddewis canu 'Mr Hapus', 'Clap clap un, dau, tri' ac 'Adeiladu tŷ bach.'

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac maent yn cael rhai cyfleoedd i fod yn annibynnol. Maent yn meithrin amrywiaeth o sgiliau ac yn dangos sgiliau echddygol manwl da. Yn ystod amser cinio, gofynnodd rhai o'r plant am ragor o dost a chymerwyd camau gan y staff gofal yn unol â hynny. Fodd bynnag, gofynnodd rhai o'r plant am help i rannu'r platiau, a gofynnodd plentyn arall am ragor o laeth, ac ni weithredwyd ar hynny. Gall rhai o'r plant ddefnyddio'r toiled yn annibynnol, ac mae'r rhai eraill sydd angen cymorth yn ddigon hyderus i ofyn i'r staff gofal am help.

## Gofal a Datblygiad

Roedd y staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Mae'r staff yn sicrhau bod pob plentyn yn golchi ei ddwylo cyn bwyta, gan wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol i baratoi bwydydd ar gyfer y plant. Maent yn rhoi gweithdrefnau 'Mesurau Diogelu mewn Lleoliadau Gofal Plant' Llywodraeth Cymru ar waith yn briodol, gan ddilyn gwiriadau dyddiol ac arferion glanhau wythnosol. Mae'r staff gofal yn diheintio arwynebau cyn amser cinio ac amser byrbryd. Maent yn gwisgo menig a ffedogau i newid cewynnau'r plant ac i ddiwallu eu hanghenion personol, ac maent yn dilyn eu polisïau i leihau'r risg o groesheintio. Dangosodd trafodaethau â'r staff gofal eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da. Nid oedd y cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau bob amser yn cynnwys llofnodion y staff a'r rhieni.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith yn ôl yr angen. Maent yn ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan fydd y plant am gael yr un adnoddau. Mae'r staff gofal yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn canmol y plant am enwi rhifau a lliwiau'n gywir, ac yn eu gwobrwyo â sticeri, gan ddweud "Da iawn!" wrthynt. Roedd y staff gofal yn dangos cynhesrwydd tuag at y plant. Roeddent yn cysuro'r plant a oedd wedi blino ac yn rhoi cofleidiadau pan oedd un ohonynt wedi cwympo, a oedd yn gwneud i'r plant deimlo'n gartrefol ar unwaith. Mae'r staff gofal yn gwrando ar farn y plant drwy ymateb i'w ceisiadau i ganu caneuon Cymraeg penodol.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb iddynt mewn ffordd sensitif. Gwyddant nad yw rhai o'r plant yn hoffi eistedd yn ystod amser cylch ac roeddent yn parchu hyn. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol ac yn asesu galluoedd y plant yn rheolaidd, drwy gynllunio, arsylwadau a nodi'r camau dysgu nesaf ar gyfer y plant. Yn ystod amser cylch, mae'r staff gofal yn annog y plant i nodi rhifau, lliwiau a siapiau yn Gymraeg. Maent yn hyrwyddo datblygiad Cymraeg y plant drwy amrywiaeth o ganeuon gydag ystumiau ac amser stori. Mae'r staff gofal yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant yn dda wrth chwarae gemau. Er enghraifft, roedd y staff yn annog y plant i nodi gwrthrychau, drwy ysgogi'r plant i ddisgrifio a nodi lliwiau'r gwrthrychau yn ystod y gweithgaredd 'Beth sydd yn y bag?'.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth hwn yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Er enghraifft, maent yn cadw'r fynedfa ar glo ac yn cadw cofnodion ymwelwyr. Mae'r lleoliad ar lawr gwaelod adeilad awdurdod lleol ac yn hollol ar wahân i'r holl bersonél eraill sy'n gweithio yn yr adeilad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal asesiadau risg cadarn, ac yn rhoi arferion glanhau a gwiriadau dyddiol ar waith. Mae'r gwiriadau tân a'r gwiriadau cynnal a chadw yn gyfredol. Mae'r staff gofal yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi.

Mae'r ardal chwarae dan do yn groesawgar ac yn fawr. Ceir arddangosfeydd lliwgar o gyflawniadau'r plant, i ddathlu eu gwaith crefft a phaentio. Mae'r staff gofal yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant, ac mae toiledau ar gael y tu allan i'r amgylchedd chwarae dynodedig, lle gall y plant ddatblygu eu hannibyniaeth, dan oruchwyliaeth y staff gofal. Mae ardaloedd tawel dynodedig a dillad gwely ar gael i'r plant sydd angen cysgu a gorffwys.

Mae'r adnoddau wedi'u labelu ac o fewn cyrraedd y plant, ac mae dewis o deganau ac adnoddau ar gael i wella eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn darparu adnoddau ar gyfer creadigrwydd y plant, ynghyd â'u hiaith, datblygiad mathemategol a'u cyfleoedd chwarae dychmygus. Mae ffens fetel yn diogelu'r ardal awyr agored, sy'n darparu ardal ddysgu ddiddorol i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu byrddau a chadeiriau i'r plant, ac mae'r staff gofal yn eistedd gyda'i gilydd ac yn cymdeithasu yn ystod amser cinio ac amser byrbryd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn wedi gwneud addasiadau i'w gwasanaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau COVID-19 a'r canllawiau ar fesurau diogelu. Maent yn diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau yn rheolaidd, gan roi eu gweithdrefnau ar waith yn effeithiol.   Mae'r datganiad o ddiben yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.  Mae'r cymarebau staff:plant yn gywir er mwyn diwallu anghenion y plant.  Mae'r gwasanaeth yn trefnu'r staff gofal yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae cofnodion o'r plant a'r staff gofal sy'n bresennol bob dydd.  Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn cofnodi'r amseroedd penodol y mae'r plant a'r staff gofal yn bresennol.   Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal yn y gwasanaeth, ac mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth am y newidiadau cadarnhaol a wnaed. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn yn gofyn am adborth gan y rhieni, y plant a'r staff. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys eu barn yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol a'r targedau ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio da ac yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd, gan gynnwys gwiriadau DBS, ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff.  Fodd bynnag, nid oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cael geirdaon ar gyfer aelod o staff dros dro cyn dechrau gweithio yn y lleoliad - fe'u cyflwynwyd i ni yn ystod yr arolygiad.   Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau sefydlu, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau amserol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol.  Mae'r staff gofal yn meddu ar gymwysterau da ac maent wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf, megis cymorth cyntaf ac amddiffyn plant. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn a'u bod yn cael cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'r gwasanaeth a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r staff yn ystod yr arolygiad.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda iawn.  Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plant yn llawn, a bod y plant yn ffynnu yn ystod eu hamser yn y gwasanaeth. Mae'r rheini yn teimlo eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau, ac maent yn teimlo bod y staff gofal yn hawdd iawn mynd atynt ac yn diwallu anghenion personol y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Datblygu annibyniaeth a llais y plant ymhellach yn ystod amser byrbryd ac amser cinio

A2. Sicrhau bod y staff a'r rhieni'n llofnodi pob cofnod digwyddiadau a damweiniau

A3. cynnwys barn y rhieni, y staff ac asiantaethau eraill yn yr adolygiad o ansawdd y gofal i greu targedau ar gyfer y gwasanaeth

A4. Sicrhau bod y cofnodion yn dangos yr union amser y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Rheoliad 28 Addasrwydd gweithwyr, atodiad 2, rhan 1, Gwybodaeth am y staff. 11 (l) (I) ni lwyddodd yr ymgeisydd i gael dau eirda ar gyfer yr unigolyn, a bod yr ymgeisydd yn fodlon ar ddilysrwydd y geirdaon hynny. | |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi